Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gyfun Penyrheol
# Heol Pontarddulais
# Gorseinon
# SA4 4FG

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gyfun Penyrheol

Ysgol gyfun gymysg 11-16 cyfrwng Saesneg a gynhelir gan awdurdod lleol Abertawe yw Ysgol Gyfun Penyrheol. Mae'n gwasanaethu ardal i'r gogledd orllewin o Abertawe sy'n cynnwys Gorseinon, Penyrheol, Casllwchwr, Kingsbridge a Phentre'r-ardd. Mae 885 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, sy'n is nag ydoedd adeg yr arolygiad craidd diwethaf ym mis Medi 2013.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu cymuned gymdeithasol gymysg ac mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o'r ystod gallu lawn. Mae 16.3% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sy'n agos iawn at y cyfartaledd cenedlaethol, sef 16.4%. Ychydig iawn o ddisgyblion yn unig sy'n rhugl yn y Gymraeg ac yn siarad Cymraeg gartref. Mae gan 25.9% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 22.9%. Mae gan 3.7% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, o gymharu â 2.2% ar gyfer Cymru. Mae tua 2.5% o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae'r ysgol yn ymgorffori cyfleuster addysgu arbenigol bach ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu cymedrol i ddifrifol. Mae lle i uchafswm o 10 disgybl yn y cyfleuster hwn, sef dau ddisgybl fesul grŵp blwyddyn ar y cyfan.

Penodwyd y pennaeth presennol ym mis Medi 2002. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys y pennaeth, dau ddirprwy bennaeth, pennaeth cynorthwyol a rheolwr busnes.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Gyfun Penyrheol yn ysgol gwbl gynhwysol sy’n cefnogi ei disgyblion yn dda. Mae cymorth ac arweiniad ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gryf ac mae wedi cyfrannu’n dda at y safonau y maent yn eu cyflawni. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi. Maent yn falch o’u hysgol ac yn gwrtais tuag at eu hathrawon, eu cyfoedion ac ymwelwyr. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas mewn gwersi. Maent yn darllen yn dda i ddethol gwybodaeth, yn ysgrifennu â chywirdeb technegol cadarn ac yn datblygu eu medrau rhifedd yn briodol mewn ystod o bynciau perthnasol.

Mae ansawdd yr addysgu a’r profiadau dysgu a ddarperir gan yr ysgol wedi cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 4. Mae llawer o athrawon yn cynllunio gwersi’n effeithiol gan ddefnyddio eu hasesiadau o waith blaenorol. Defnyddiant amrywiaeth o adnoddau a gynlluniwyd yn dda sy’n ennyn diddordeb disgyblion yn dda mewn gwersi.

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, sy’n seiliedig ar godi uchelgeisiau pob un o’r disgyblion ac yn eu paratoi ar gyfer eu bywydau yn y dyfodol. Maent yn rhannu synnwyr o ddiben ac ymrwymiad i werthoedd ac uchelgais yr ysgol a adlewyrchir yn eu harwyddair, sef “I lwyddo rhaid credu – To achieve you need to believe”.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella safonau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm

A2 Gwella cynllunio i fynd i'r afael ag unrhyw wendidau mewn addysgu ac asesu

A3 Gwella'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion mewn sefyllfaoedd heblaw gwersi Cymraeg

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mewn gwersi, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd cryf ac yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda. Mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da iawn ac yn cynhyrchu gwaith o safon eithriadol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau siarad a gwrando cadarn. Maent yn gwrando gyda sylw a pharch priodol ar yr athro a'u cyfoedion. Mae llawer ohonynt yn cyfrannu'n briodol a hyderus mewn trafodaethau dosbarth pan roddir y cyfle iddynt wneud hynny. Maent yn trafod eu gwaith yn dda ac yn esbonio eu syniadau'n glir. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn adeiladu ar gyfraniad pobl eraill heb gael eu hannog, a gwnânt hynny mewn ffordd hynod huawdl. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn rhoi atebion llafar byr yn unig, er bod hyn yn aml i ymateb i gwestiynau caeedig athrawon.

Mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn dda i ddethol gwybodaeth, er enghraifft mewn addysg grefyddol wrth ddarganfod ffeithiau a gwahanol agweddau at y greadigaeth. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn defnyddio rhesymu a dod i gasgliad i wella eu dealltwriaeth o fwriadau awdur. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gallu gwerthuso cymeriadau yn arbennig o dda a dadansoddi'n fedrus sut mae awdur yn defnyddio iaith i ddylanwadu ar deimladau'r darllenydd, er enghraifft wrth drafod perthynas Lady Macbeth â'i gŵr.

Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu gyda chywirdeb technegol cadarn ac yn defnyddio terminoleg sy'n benodol i bwnc yn dda. Maent yn ysgrifennu'n glir mewn arddull ffurfiol, er enghraifft wrth ysgrifennu am brosesau neu arbrofion mewn gwyddoniaeth. Mae ychydig iawn ohonynt yn creu darnau soffistigedig o ysgrifennu estynedig, gan ddadlau'n effeithiol a chyfosod gwybodaeth o ffynonellau amrywiol, er enghraifft wrth archwilio achosion tlodi yn Oes Elisabeth. Mae mwyafrif y disgyblion yn dangos synnwyr clir o ddiben a chynulleidfa yn eu hysgrifennu. Fodd bynnag, nid oes gan leiafrif ohonynt synnwyr digonol o gynulleidfa, ac o ganlyniad, maent yn gwneud dewisiadau iaith anghywir ac nid oes naws gywir i'w hysgrifennu.

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn fedrus mewn ystod o bynciau perthnasol. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'r pedair rheol rhif yn dda ar gyfer cyfrifiadau syml. Mae mwyafrif ohonynt yn cymhwyso eu medrau rhif a'u gwybodaeth am raddfeydd yn briodol, er enghraifft wrth fesur lledred a hydred mewn daearyddiaeth. Mae'r mwyafrif ohonynt yn dehongli data yn briodol wrth ddarllen siartiau, tablau neu graffiau. Maent yn mesur yn gywir ac yn defnyddio eu dealltwriaeth o gyfrannau yn briodol, er enghraifft i greu union gopïau o gynwysyddion bwyd i raddfa ar gyfer lluniau Pop art. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn cymryd gofal digonol wrth dynnu llun graffiau i sicrhau eu bod yn cynnwys teitl cywir, a'u bod wedi eu labelu a'u plotio yn gywir.

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda ar draws y cwricwlwm. O roi'r cyfle iddynt, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio meddalwedd arbenigol yn bwrpasol, er enghraifft wrth gyfansoddi cerddoriaeth, tynnu llun a dylunio gwrthrychau. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn ymgymryd â meddwl cyfrifiannu yn dda wrth lunio diagramau i ddangos prosesau mewn gwyddoniaeth, mewn testunau fel osmosis neu ensymau.

Mae lleiafrif o ddisgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn briodol trwy ystyried amrywiaeth o ffynonellau a thystiolaeth i lunio casgliadau yn effeithiol, er enghraifft wrth drafod yr hawlwyr i'r orsedd ym 1066. Mae disgyblion yn dangos medrau creadigol cryf, er enghraifft wrth ddylunio teganau addysgol ar gyfer plant ifanc neu wneud nwyddau Nadolig.

Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, wedi amrywio dros y pedair blynedd ddiwethaf ond mae'n cyd-fynd yn fras â pherfformiad mewn ysgolion tebyg. Bu perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio yn gryf mewn dwy o'r pedair blynedd ddiwethaf. Yn 2015 a 2017, mae perfformiad yn y dangosydd hwn ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg. Mae data dros dro ar gyfer 2018 yn dangos bod perfformiad yn y dangosyddion hyn wedi cael ei gynnal.

Mae cyfran y disgyblion sy'n ennill pum cymhwyster TGAU neu gyfwerth ar raddau A*-A wedi amrywio dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mae perfformiad yn y dangosydd hwn yn cymharu'n dda â'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg mewn dwy o'r tair blynedd ddiwethaf, sy'n cynnwys y deilliant dros dro ar gyfer 2018.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, bu perfformiad bechgyn uwchlaw perfformiad bechgyn mewn ysgolion tebyg mewn llawer o ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4. Bu perfformiad merched islaw perfformiad merched mewn ysgolion tebyg yn y trothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, am y pedair blynedd ddiwethaf.

Mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim wedi amrywio yn y rhan fwyaf o ddangosyddion dros y pedair blynedd ddiwethaf. Bu perfformiad yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, islaw perfformiad yr un grŵp o ddisgyblion mewn ysgolion tebyg am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae deilliannau dros dro ar gyfer 2018 yn dangos gwelliant sylweddol ar berfformiad y flwyddyn flaenorol yn y dangosydd hwn. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cryf yn erbyn eu targedau ac mae llawer ohonynt yn cyflawni'n dda erbyn diwedd cyfnod allweddol 4.

Caiff y rhan fwyaf o ddisgyblion eu cofrestru ar gyfer cymhwyster TGAU mewn Cymraeg ac mae llawer ohonynt yn ennill cymhwyster lefel 2. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas o ran datblygu eu medrau Cymraeg yn eu gwersi Cymraeg. Fodd bynnag, cyfyngedig iawn yw defnydd disgyblion o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm ac o gwmpas yr ysgol.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae bron pob disgybl yn aros mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

## Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau eu bywyd yn yr ysgol ac maent yn gwerthfawrogi'r perthnasoedd cryf sydd ganddynt gyda staff a'u cyfoedion. Mae bron pob un ohonynt yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu cynnwys ac yn cael eu gwerthfawrogi. Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth glir o ystod y cymorth a'r arweiniad sydd ar gael iddynt, ac maent yn credu bod yr ysgol yn delio'n effeithiol â'r achosion prin o fwlio sy'n codi. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn falch o'u hysgol ac maent yn gwrtais tuag at eu hathrawon, eu cyfoedion ac ymwelwyr.

Mae disgyblion yn mynd ati i wneud penderfyniadau i wella'r ysgol a'i hamgylchedd. Mewn ychydig o adrannau, mae hyn yn cynnwys gofyn eu barn am addysgu a dysgu. Mae gan y cyngor ysgol trefnus ran bwysig wrth gynrychioli cymuned yr ysgol ac mae cynrychiolwyr disgyblion yn cymryd eu rolau'n ddifrifol iawn. Mae mentrau diweddar yn cynnwys adolygu'r system wobrau ar gyfer presenoldeb rheolaidd a dynodi disgyblion yn 'rhyfelwyr gwastraff' i leihau ac ailgylchu gwastraff plastig. Mae disgyblion yn datblygu eu medrau arwain yn dda. Er enghraifft, mae llysgenhadon iaith yn cynorthwyo disgyblion iau i ymarfer eu Ffrangeg a'u Sbaeneg ac mae llysgenhadon chwaraeon yn helpu cynnal clybiau amser cinio.

Mae llawer o ddisgyblion yn manteisio ar y cynnig helaeth o glybiau a gweithgareddau allgyrsiol. Mae hyn yn eu helpu i arddangos eu medrau perfformio neu gymryd rhan mewn chwaraeon i gadw'n weithgar ac iach. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn datblygu eu medrau llafaredd yn dda yn y 'Clwb Bar' trwy ddysgu sut i gyflwyno achos mewn treial ffug.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at fyw yn iach. Maent yn gwerthfawrogi'r dewisiadau addas o fwyd yn y ffreutur, yn defnyddio pistylloedd dŵr yn yr ysgol a'r cyfle i asesu eu ffitrwydd mewn addysg gorfforol. Mae disgyblion o bob oedran yn cymryd rhan mewn gwaith elusennol, gan gefnogi elusennau lleol a chenedlaethol, fel y banc bwyd yn ystod wythnos gŵyl y cynhaeaf.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi, er bod ymddygiad o gwmpas yr ysgol yn fwy amrywiol. Maent yn gwrando'n astud ar yr athro a disgyblion eraill. Mae llawer ohonynt yn dangos agwedd gadarnhaol at eu gwaith ac maent yn ymrwymo'n gryf i'w dysgu. Maent yn dal ati i ganolbwyntio'n dda trwy gydol y wers ac yn gweithio'n annibynnol i gwblhau eu gwaith a'i wella. Maent yn gweithio'n bwrpasol ac yn gynhyrchiol mewn grwpiau bach, er enghraifft pan fyddant yn cydweithio i adnabod arwyddion amseriad mewn cerddoriaeth.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd yn llawn â'u dysgu ac yn gwneud cyfraniadau cadarnhaol at y wers. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 7 yn ymarfer siarad Ffrangeg gyda brwdfrydedd, ac mewn celf, mae disgyblion yn falch o ddangos y camau a gymerwyd i greu eu darn terfynol. Mewn ychydig o wersi, mae disgyblion yn dyfalbarhau pan fyddant yn wynebu tasgau hynod heriol. Mae hyn yn cynnwys disgyblion mewn gwers gyfrifiadureg yn defnyddio rhaglennu'n fedrus i gwblhau tudalen HTML a gêm gyfrifiadur gymhleth o fewn amserlen hynod gyfyngedig. Mae llawer o ddisgyblion yn trefnu eu gwaith ac yn defnyddio technegau'n dda i atgyfnerthu eu dysgu, er enghraifft trwy amlygu rhannau pwysig o destunau heb anogaeth.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu a'r profiadau dysgu a ddarperir gan yr ysgol wedi cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 4.

Mae bron pob un o'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gref ac maent yn cynnig esboniadau a chyfarwyddyd clir. Maent yn ffurfio perthnasoedd gweithio cynhyrchiol gyda'u disgyblion ac yn rheoli ymddygiad yn dda.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau a gynlluniwyd yn dda sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn dda mewn gwersi. Maent yn cynllunio gwersi sy'n ymateb yn effeithiol i ddysgu blaenorol disgyblion ac wedi eu cysylltu'n briodol ag asesiad yr athro o waith blaenorol.

Mewn mwyafrif o achosion, mae athrawon yn darparu gweithgareddau wedi eu hamseru'n dda gyda chydbwysedd llwyddiannus o dasgau dosbarth cyfan, grŵp ac unigol. O ganlyniad i hyn, mae disgyblion yn gwneud cynnydd addas mewn ystod o fedrau. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o athrawon yn gweddu tasgau neu gwestiynau'n gyson i fodloni anghenion pob un o'r disgyblion yn ddigon da.

Mewn ychydig iawn o wersi llwyddiannus iawn, mae athrawon yn cynnal lefel briodol uchel o her a chyflymdra i ddysgu. Maent yn rhoi cyfle i ddisgyblion o bob gallu benderfynu sut hoffent weithio, a thrwy ddethol grwpiau yn ystyriol, sicrhau cyfranogiad llawn. Mewn ychydig o achosion, pan fydd athrawon yn siarad gormod, mae'n arafu cyflymdra'r dysgu ac yn lleihau cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan a gweithio'n annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio holi yn gymwys i gael amcan o wybodaeth disgyblion a ph'un a ydynt yn galw dysgu blaenorol i gof. Fodd bynnag, nid yw holi athrawon yn archwilio dealltwriaeth disgyblion yn gyson nac yn eu herio i ddatblygu eu hatebion ar lafar.

Mae mwyafrif o athrawon yn mynd o gwmpas yn effeithiol yn ystod gwersi i gynorthwyo disgyblion a'u hannog. Maent yn darparu adborth defnyddiol ar lafar yn ystod y wers, sy'n cynorthwyo unigolion yn briodol. Mae lleiafrif o athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig buddiol i ddosbarthiadau cyfan sy'n amlygu meysydd cyffredin y mae angen eu gwella. Yn aml, dilynir hyn gan dasgau defnyddiol sy'n cryfhau dealltwriaeth disgyblion o'r meysydd hynny. Mewn ychydig o achosion, nid yw sylwadau athrawon yn nodi'n ddigon clir sut gall disgyblion wella eu gwaith.

Mae'r ysgol yn cynllunio ei chwricwlwm yn effeithiol i fodloni anghenion disgyblion. Mae'n gweithio'n dda gyda disgyblion i alluogi'r rhan fwyaf ohonynt i wneud dewisiadau cymhwyster priodol, sy'n darparu llwybrau addas ar gyfer eu dyfodol. Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r cwricwlwm yn hyrwyddo pynciau sylfaen yn gyfartal, gan sicrhau bod pob maes dysgu'n cael ei werthfawrogi. O ganlyniad, mae disgyblion yn dewis ystod eang o opsiynau yng nghyfnod allweddol 4, gan gynnwys ieithoedd tramor, y dyniaethau a phynciau creadigol. Yn gyffredinol, mae trefniadau'r ysgol ar gyfer trefnu setiau yn cefnogi'r dysgu yn briodol. Fodd bynnag, mae ychydig o ddosbarthiadau mawr iawn yng nghyfnod allweddol 3, sy'n creu anawsterau o ran rheoli gwaith grŵp a gwaith ymarferol.

Mae'r ffaith fod yr ysgol yn nodi'n gynnar y disgyblion a fydd yn elwa ar gyfleoedd pwrpasol trwy bartneriaethau â sefydliadau addysg lleol eraill yn gryfder arbennig. O ganlyniad i hyn, mae'r disgyblion hyn yn derbyn darpariaeth werth chweil ac yn ennill cymwysterau defnyddiol. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion ag anghenion dysgu cymedrol i ddifrifol yn derbyn cymorth gwerthfawr yn ei chyfleuster addysgu arbenigol. Caiff y disgyblion hyn eu hintegreiddio'n dda mewn darpariaeth prif ffrwd, gan sicrhau deilliannau dysgu cadarnhaol iawn a hyrwyddo datblygiad personol cryf.

Ar y cyfan, mae'r ysgol yn cynllunio cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ymgymryd â phrofiadau dysgu gwerth chweil. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd creadigol a digidol gwerthfawr, fel defnyddio meddalwedd dylunio mewn technoleg neu ddatblygu codau mewn TGCh. Caiff disgyblion amrywiaeth eang o gyfleoedd mewn clybiau ar ôl yr ysgol, fel drama, crochenwaith a badminton. Mae prosiectau defnyddiol yn cefnogi disgyblion mwy abl, fel ymweliadau gan arbenigwyr meddygol.

Mae'r ysgol yn cynnal rhaglen effeithiol ar gyfer lleoliadau gwaith, sy'n cynnwys cyfleoedd amrywiol, fel masnachau galwedigaethol, a phroffesiynau cyfreithiol a milfeddygol. Caiff y profiadau hyn effaith werth chweil ar ddealltwriaeth disgyblion o fyd gwaith a'u datblygiad personol.

Mae'r ysgol yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau yn dda. Mae olrhain medrau llythrennedd yn gynhwysfawr ar draws y cwricwlwm yn hysbysu athrawon yn dda am anghenion disgyblion unigol. Hefyd, mae'n rhoi targedau llythrennedd cyfoes ar gyfer gwella i ddisgyblion. Nid yw'r ysgol yn defnyddio'r targedau llythrennedd hyn yn ddigon da i wella'i darpariaeth.

Mae datblygu medrau rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm wedi cael ei wella gan adnoddau addysgu buddiol, fel pytiau fideo a chardiau gwaith ar gyfer cyfrifo cyfartaleddau neu osod siartiau cylch. Mae hyn yn sicrhau graddau da o gysondeb yn yr addysgu. Mae'r ysgol yn cynllunio gweithgareddau priodol i gefnogi medrau TGCh disgyblion. Er enghraifft, mewn daearyddiaeth, mae disgyblion yn defnyddio systemau lleoli byd-eang (olrheinwyr GPS) mewn gwaith arolwg lleol i ddatblygu eu medrau casglu data.

Mae'r ysgol yn darparu ychydig o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu Cymraeg a'u gwerthfawrogiad o ddiwylliant, er enghraifft diwrnod 'Shwmae' a theithiau i Langrannog. Nid yw'r agwedd hon ar ddarpariaeth yr ysgol wedi ei datblygu'n ddigonol ar y cyfan.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae Ysgol Gyfun Penyrheol yn cynorthwyo ei disgyblion yn dda mewn cymuned ofalgar a chynhwysol. Mae'n cynorthwyo disgyblion sy'n agored i niwed yn dda, gan ddefnyddio ystod eang o fentrau. Mae'r rhain yn cynnwys cymorth â llythrennedd a rhifedd, sesiynau i helpu datblygu medrau cyfathrebu cymdeithasol ac emosiynol ac ymyriadau i wella ymddygiad. Cefnogir y rhain gan gysylltiadau defnyddiol ag asiantaethau allanol, ac maent wedi cyfrannu'n briodol at les a chynnydd academaidd disgyblion.

Mae'r ysgol yn monitro presenoldeb ac ymddygiad yn drylwyr. Caiff polisi ymddygiad yr ysgol ei roi ar waith yn gyson gan bron bob un o'r staff ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ei ddeall. Mae prosiect 'Cynnydd', sy'n darparu cwricwlwm amgen yng nghyfnod allweddol 4, yn cynorthwyo disgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd ac ymddieithrio yn dda. Mae'r cyfleuster addysgu arbenigol yn darparu cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel, a phrofiadau academaidd a chymdeithasol gwerth chweil, ar gyfer disgyblion sy'n agored iawn i niwed.

Mae'r ysgol yn monitro cynnydd disgyblion yn agos. Mae arweinwyr yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth ynglŷn â'u cynnydd academaidd, eu hymddygiad a'u datblygiad cymdeithasol, i bennu'r cymorth sydd ei angen ar bob disgybl.

Mae cymorth ac arweiniad ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gryf ac wedi cyfrannu'n dda at y safonau y maent yn eu cyflawni.

Defnyddir ystod o strategaethau dilys gan yr ysgol i gyfathrebu'n effeithiol gyda rhieni. Mae'r rhain yn cynnwys platfformau cyfryngau cymdeithasol, nosweithiau rhieni a nosweithiau â ffocws penodol, fel e-ddiogelwch a chymhwysedd digidol. Mae adroddiadau i rieni ar gynnydd disgyblion yn gynhwysfawr.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae'r ysgol yn helpu disgyblion i wneud penderfyniadau ynglŷn â'u hiechyd a'u lles eu hunain trwy hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn effeithiol. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Gall disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol gymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol a chânt gyfle cyfartal i gymryd rhan mewn grwpiau gwneud penderfyniadau. Mae'r cyngor ysgol yn cyfrannu'n gadarnhaol at welliannau i fywyd yr ysgol, er enghraifft trwy gynlluniau ailgylchu, newidiadau i wisg ysgol a hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol.

Caiff rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr ei gwerthfawrogi gan ddisgyblion ac mae'n cyfrannu'n dda at eu datblygiad. Mae'r ysgol yn arfarnu a diwygio'r ddarpariaeth hon yn ofalus yn sgil adborth disgyblion. Mae'n datblygu agweddau a gwerthoedd disgyblion yn effeithiol, gan eu galluogi i ddeall eu lle yn eu cymuned eu hunain a'r byd ehangach, er enghraifft trwy ei gwaith yn parchu hawliau plant. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion fyfyrio ar eu credoau eu hunain a chredoau pobl eraill. Mae'n rhoi llais ac arweiniad priodol i ddisgyblion a'u teuluoedd i gefnogi eu dewisiadau gyrfa yn y dyfodol.

Mae'r ysgol yn ymateb i, ac yn rheoli, unrhyw achosion o fwlio yn dda. Mae hyn yn cynnwys gwneud defnydd effeithiol o lysgenhadon disgyblion 'Seriously K.I.N.D.', sydd wedi cael eu hyfforddi i feithrin cynwysoldeb yng nghymuned yr ysgol. Pan fydd achosion yn digwydd, cânt eu cofnodi ac eir i'r afael â nhw yn drylwyr.

Mae ystod eang o weithgareddau allgyrsiol yn annog ymglymiad cadarnhaol disgyblion yn y celfyddydau creadigol ac mewn gweithgareddau chwaraeon. Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn digwyddiadau cerddorol, siarad cyhoeddus a'r cynhyrchiad ysgol gyfan blynyddol yn cael effaith gadarnhaol ar eu hyder a'u hunan-barch.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth wedi datblygu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, yn seiliedig ar godi uchelgeisiau'r holl ddisgyblion a'u paratoi ar gyfer eu bywydau yn y dyfodol. Caiff ei gynorthwyo'n addas gan ei dîm arweinyddiaeth. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ac yn rhannu synnwyr o ddiben ac ymrwymiad i werthoedd ac uchelgais yr ysgol a adlewyrchir yn eu harwyddair, sef "I lwyddo rhaid credu – To achieve you need to believe". Mae hyn wedi cyfrannu'n dda at forâl cadarnhaol y rhan fwyaf o staff ac mae wedi cefnogi gwelliannau i ddeilliannau a lles disgyblion yn briodol. Mae ychydig o feysydd pwysig o waith yr ysgol lle nad yw arweinyddiaeth wedi arwain at welliannau digonol a chynaledig, fel ansawdd yr addysgu a pherfformiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim.

Caiff rolau a chyfrifoldebau uwch arweinyddiaeth eu dosbarthu'n deg ar y cyfan, ac maent yn canolbwyntio'n briodol ar godi safonau cyflawniad a lles disgyblion. Mae'r pennaeth yn dwyn ei dîm i gyfrif yn briodol trwy gyfarfodydd rheolaidd, sy'n cynnwys adolygiadau rheolaidd o gynnydd disgyblion.

Mae strwythur rheoli llinell clir ar gyfer uwch arweinwyr i gefnogi a herio arweinwyr canol. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd grŵp amserlenedig ar gyfer arweinwyr y cwricwlwm ac arweinwyr bugeiliol yn y drefn honno. Ffocws gweithredol sydd i'r cyfarfodydd hyn ar y cyfan, tra bod cyfarfodydd cyswllt unigol yn cynnwys eitemau agenda addas a chyffredin sy'n canolbwyntio'n briodol ar fonitro cynnydd a lles disgyblion. Nid yw ychydig o'r cyfarfodydd hyn yn arwain at bwyntiau gweithredu digonol a chlir. Nid yw hyn yn helpu uwch arweinwyr i ddwyn arweinwyr canol i gyfrif yn ddigon cadarn.

Mae llawer o arweinwyr canol yn cyflawni llawer o agweddau ar eu rôl yn briodol. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae effeithiolrwydd arweinwyr canol yn amrywio gormod o ran sicrhau safonau uchel ac yn gwella ansawdd yr addysgu yn eu meysydd cyfrifoldeb. Mae arweinwyr ar bob lefel yn defnyddio data perfformiad yn dda i nodi a mynd i'r afael â meysydd i'w gwella. Mewn llawer o achosion, mae ganddynt ddealltwriaeth addas o'r agweddau penodol ar addysgu y mae angen eu datblygu ac yn cynllunio camau gweithredu priodol i ysgogi gwelliannau. Mewn lleiafrif o achosion, nid yw arweinwyr yn canolbwyntio'n ddigon agos ar effaith yr addysgu ar gynnydd disgyblion. Yn benodol, wrth graffu ar waith disgyblion, maent yn rhoi gormod o sylw i gydymffurfio â pholisïau'r ysgol ar draul arfarnu'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i'r arweinwyr hyn nodi'n gywir feysydd penodol i'w gwella.

Mae arweinwyr yn casglu ystod briodol o dystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys safbwyntiau disgyblion, er mwyn arfarnu eu meysydd cyfrifoldeb. Defnyddiant y dystiolaeth hon i osod blaenoriaethau gwella sy'n briodol ar y cyfan. Fodd bynnag, mae gormod o amrywiad o ran pa mor fanwl gywir y mae arweinwyr yn cynllunio a monitro eu strategaethau gwella. O ganlyniad, nid yw'r strategaethau hyn wedi cael effaith ddigon cyson ar effeithiolrwydd addysgu ac asesu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer rheoli perfformiad staff. Mae amcanion yn cysylltu'n uniongyrchol â blaenoriaethau gwella'r ysgol ac maent yn cefnogi datblygiad proffesiynol unigol yn dda. Mae'r ysgol yn herio'r rhan fwyaf o achosion o danberfformio yn gadarn. Mae gweithgareddau dysgu proffesiynol ar lefel ysgol gyfan a lefel unigol yn cysylltu'n briodol ag amcanion rheoli perfformiad a blaenoriaethau gwella'r ysgol. Caiff staff gyfleoedd addas i rannu arfer dda, er enghraifft trwy'r rhaglen arsylwi cymheiriaid 'triad'.

Mae'r pennaeth, y rheolwr busnes a'r llywodraethwyr yn rheoli gwariant yr ysgol yn ofalus ac yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i'r ysgol. Ar hyn o bryd, mae digon o staff, sy'n meddu ar gymwysterau priodol ac yn cael eu lleoli'n addas.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd cadarn o gyllid grant, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, i gynorthwyo disgyblion sy'n agored i niwed. Mae hyn wedi cefnogi gwelliannau i les, gan gynnwys presenoldeb, disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, ond nid yn y safonau y maent yn eu cyflawni.

Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn frwdfrydig.  Cânt eu hysbysu'n briodol am ei pherfformiad, gan gynnwys trwy ddefnyddio llywodraethwyr cyswllt.  Trwy eu gafael gwell ar ddata ar berfformiad disgyblion, maent wedi ennill dealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu, ac erbyn hyn, maent yn darparu lefel addas o her ar berfformiad mewn meysydd allweddol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/12/2018